

**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A  
GYNHALIWDYD AM 9:30AM AR 28 MEDI 2021 YN NHŶ HASTINGS A THRWY  
'TEAMS'**

**Yn bresennol:** Mrs Debra Evans-Williams (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell a Mrs Julie May

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr David Burley (Pennaeth Busnes); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Mr Math Williams (Swyddog Cymorth Tîm).

**Gwestai :** Mr Howard Jones (Buddsoddwyr mewn Pobl).

**Amser Dechrau: 09:30**

**Amser Gorffen: 11:05**

**Ymddiheuriadau:** Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

## **1. Buddsoddwyr mewn Pobl – Adborth**

- 1.1. Llongyfarchodd Mr Howard Jones y Comisiwn ar gadw ei achrediad a'i statws.
- 1.2. Roedd sgôr meincnod y Comisiwn yn uwch na'r cyfartaledd – er ychydig yn is na'i sgôr yn 2018.
- 1.3. Amlygwyd llwyddiannau allweddol y Comisiwn ac roedd y rhain yn cynnwys arweinyddiaeth ysbrydoledig, gwneud penderfyniadau mewn grŵp, rheoli perfformiad yn gadarnhaol, strategaethau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer dysgu a datblygu, ochr yn ochr â diwylliant o welliant parhaus.
- 1.4. Diolchwyd Mr Jones am ei adborth gan y Comisiynwyr a llongyfarchwyd y tîm ar ei lwyddiannau ynghanol pwysau'r pandemig, newidiadau ymhlith staff, a materion eraill.

## **2. Datganiadau o Fuddiant**

- 2.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant

## **3. Briff y Cadeirydd**

- 3.1. Rhoddwyd briff gan y Cadeirydd i'r Comisiwn ar y cyfarfod cynharach â Lisa James o Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru (LIC):

- Mae pum Gorchymyn wedi'u cyhoeddi.

- Rhagwelir y bydd yr holl benderfyniadau sy'n weddill yn cael eu gwneud erbyn diwedd mis Hydref.
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu trefnu sesiwn adborth yn dilyn yr arolwg gyda'r 22 o arweinwyr awdurdodau lleol. Bydd y Comisiwn yn cael ei wahodd i gymryd rhan a bydd yn gallu rhannu'r newidiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023.
- Yn ogystal, trafodwyd recriwtio Comisiynwyr newydd yn y cyfarfod a chytunwyd y bydd unrhyw drafodaethau pellach ar recriwtio yn digwydd yn dilyn y cyfarfod hwn.

#### 4. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2021

- 4.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

#### 5. Materion yn Codi

- 5.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 20 Medi 2021 gan y Prif Weithredwr.
- 5.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:
- **(Mater 1)** Mae staff y Comisiwn wedi cwblhau Hyfforddiant Insights a gofynnwyd i'r holl staff gwblhau'r gwaith Gweithgarwch Tîm dilynol. Ar ôl cwblhau'r mwyafrif o'r Rhaglen Newid, bydd diweddariad terfynol yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf a **chytunwyd** y bydd cynllun gweithredu Datblygiad a Hyfforddiant Blynyddol yn cael ei ddatblygu i ddisodli'r rhaglen.
  - **(Mater 3)** Yn ystod yr wythnos ddiwethaf cyn y cyfarfod hwn, mae'r Gweinidog wedi gwneud penderfyniadau ar Gasnewydd, Conwy a Blaenau Gwent. Ar hyn o bryd, dim ond pum arolwg sy'n aros am benderfyniadau, gan gynnwys Caerdydd, Sir y Fflint a Chaerffili.
  - **(Mater 5)** Yn dilyn y cyngor a gafwyd gan gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn, **cytunwyd** y bydd y Canllawiau'r Arolygon Cymunedol yn cael eu hailddrafftio, ac y bydd eu cyhoeddiad yn cael ei ohirio tan 2022.

#### 6. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 21 Medi 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

- 6.2. **Nodwyd** bod yr holl arolygon etholiadol wedi'u cwblhau.
- 6.3. **Cytunwyd** y bydd y Gofrestr Risg yn cael ei diweddarau i adlewyrchu statws presennol yr arolygon.

## 7. Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023

- 7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 20 Medi 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 7.2. **Cytunwyd** y bydd yr adroddiad ar Bolisiâu Rhaglen Arolygon Etholiadol 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.
- 7.3. **Cytunwyd** y bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cyflwyno adroddiad drafft ar bolisi ac arferion i gyfarfod mis Tachwedd er mwyn cael trafodaeth.

## 8. Adroddiad ar Gyllideb 2021-22

- 8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 28 Medi 2021 gan y Rheolwr Cyllid a **nodwyd** y sefyllfa gyllidebol gyfredol ar gyfer 2021-22.
- 8.2. **Nodwyd** bod tanwariant cyffredinol yng nghyllideb y Comisiwn ar ddiwedd mis Awst 2021. Y maes mwyaf sylweddol o ran tanwariant oedd Costau Staff, yn bennaf oherwydd bod un aelod staff wedi gadael yn gynnar.
- 8.3. Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar yr achosion mwyaf sylweddol o danwariant yn y gyllideb ac amlinellodd y prif resymau drostynt, ynghyd ag unrhyw ymrwymadau gwariant yn y dyfodol ar gyfer y cyllidebau hynny.
- 8.4. **Hysbyswyd** yr aelodau hefyd ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid i'r Comisiwn gyflogi cyfieithwyr ychwanegol i gynorthwyo â phrosesu sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ar Gynigion Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## 9. Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 26 Gorffennaf 2021

- 9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 28 Medi 2021 gan y Rheolwr Cyllid
- 9.2. Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar y canlyniadau wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ystyried yr eitemau sefydlog ar yr agenda ynghyd â'r eitemau ychwanegol ar yr agenda. Y brif eitem a gafodd sylw oedd yr archwiliad ar adroddiad a chyfrifon blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2020-21. Nodwyd

canlyniadau'r archwiliad gan yr aelodau, sef nad oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd na materion arwyddocaol eraill i adrodd arnynt, a bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol.

- 9.3. Nododd yr aelodau ganlyniadau cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021 a'r prif bwyntiau a gododd o'r cyfarfod.

## 10. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

- 10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 28 Medi 2021 gan y Rheolwr Cyllid.
- 10.2. **Nodwyd** bod yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u gweithredu. **Cytunwyd** bod y gofrestr risg bellach yn adlewyrchu'n gywir y risgiau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac nad oedd angen unrhyw newidiadau pellach am y tro.

## 11. Archwiliad Dwfn o TGCh

- 11.1. Ystyriwyd canlyniadau'r gweithdy archwiliad dwfn o TGCh a gynhaliwyd ar 17 Awst 2021. Gwnaed y cais am yr archwiliad dwfn yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2020 a byddai'n cynnwys Comisiynydd a Phennaeth TG Cymwysterau Cymru.
- 11.2. **Nodwyd** bod y canfyddiadau'n dangos bod sefyllfa a mesurau seiberddiogelwch presennol y Comisiwn yn effeithiol ac yn bodloni gofynion parodrwydd i dderbyn risg y Comisiwn ar hyn o bryd.
- 11.3. **Nodwyd** y dylai'r parodrwydd i dderbyn risg fod yn wahanol ar gyfer y dyfeisiau cyfrifiadurol hynny a ddarperir i staff neu Gomisiynwyr nad ydynt yn dod o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chymwysterau Cymru. Dylid ychwanegu hyn at y gofrestr risg TGCh fel IT11. Fel rhan o'r camau lliniaru ar gyfer diogelwch, dylid darparu sgrinlun bob blwyddyn yn nodi bod yr holl batsys diweddaraf i systemau wedi'u gosod. Bydd y Pennaeth Busnes yn creu canllaw defnyddwyr ar gyfer y broses.
- 11.4. **Nodwyd** y dylid ystyried Porth y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn risg sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y gofrestr risg TGCh a'i hychwanegu fel IT12.
- 11.5. **Nodwyd** y dylid gwneud ychwanegiad at y gofrestr risg Gweithredol ar gyfer 'Gweithredu bwriadol gan unigolyn anfodlon' fel OP21.

- 11.6. **Cytunodd** y Comisiwn i dderbyn y newidiadau a awgrymwyd i'r gofrestr risg ac y bydd y Comisiwn yn parhau i archwilio camau gweithredu yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r risgiau a nodwyd yn yr archwiliad dwfn.

## 12. Gwobrau'r Ddraig Werdd

- 12.1. **Gofynnodd** y Pennaeth Busnes i'r Comisiwn roi'r gorau i gynllun archwilio amgylcheddol presennol y Ddraig Werdd a mabwysiadu system debyg i'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, lle mae perfformiad amgylcheddol yn ffurfio rhan o adroddiad cyffredinol ar ei ystad.
- 12.2. **Nodwyd** nad oedd y gost o ran amser ac ymdrech weinyddol ynghyd â chost cyflogi asesydd yn rhoi llawer o werth ac y dylid ceisio ateb mwy effeithlon.
- 12.3. **Cytunwyd** y dylid ychwanegu perfformiad amgylcheddol at yr Adroddiad Blynyddol a'i gyfuno â'r adran ar fioamrywiaeth, ac ni fydd y Comisiwn yn ceisio ailachrediad Gwobr y Ddraig Werdd.

## 13. Trefniadau Parhad Busnes Cyffredol (Diweddariad Llafar)

- 13.1. **Nodwyd** bod niferoedd y staff yn y swyddfa bron â dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Bydd staff yn parhau i weithio gartref ar ddydd Gwener oni bai bod angen am resymau busnes i staff fod yn y swyddfa.

## 14. Calendr Digwyddiadau

- 14.1. **Nodwyd** y Calendr gan y Comisiwn.
- 14.2. **Nodwyd** bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar y calendr, sef dydd Gwener 26 Hydref, yn gywir, gan fod hyn yn wahanol i'r cofnodion.
- 14.3. **Gweithredu:** Y Swyddog Cymorth Tîm i ddiweddarau'r Calendr digwyddiadau â'r newidiadau y cytunwyd arnynt.

## 15. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

- 15.1. Nid oedd unrhyw fusnes perthnasol arall.

## 16. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Hydref 2021